O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2020 Rhif 1177 (Cy. 264)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Ffordd Quebec, Llanbadarn Fawr, Ceredigion) (Gwahardd Aros) 2020

Gwnaed	*27 Hydref 2020*
Yn dod i rym	*30 Hydref 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A44, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ar ôl rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Ffordd Quebec, Llanbadarn Fawr, Ceredigion) (Gwahardd Aros) 2020 a daw i rym ar 30 Hydref 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A44 y Drenewydd i Aberystwyth.

Gwahardd aros ar unrhyw adeg

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochr ddwyreiniol y darn o'r gefnffordd o'r enw Ffordd Quebec, Llanbadarn Fawr, Ceredigion sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Chilgant Padarn hyd at

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

bwynt 44 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Esemptiadau

4. Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ddarn arall o ffordd, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darn o'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darn o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**2**);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darn o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(**2**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(iv) pan fo'n gweithredu ar gyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Hydref 2020

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru